Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Woodlee – Gofal tymor byr**

**Bwcle**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Woodlee – Gofal tymor byr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn dangos ymdrech sylweddol i hybu defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Woodlee. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau, a gallant barhau â'u trefniadau arferol yn ystod eu harhosiad. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith i roi gwybodaeth i'r staff ynghylch cefnogi a gofalu am y bobl yn unol â'u hanghenion dynodedig.

Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff. Mae proses recriwtio ar waith, gan gynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac maent yn fedrus yn eu rolau. Mae datblygiad staff mewn perthynas â goruchwylio, arfarniadau a hyfforddiant wedi parhau yn ystod pandemig COVID-19.Mae'r staff yn cael gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl. Mae angen gwelliannau o ran cofnodi ymweliadau rheoleiddio a wneir gan yr unigolyn cyfrifol.

Mae'r adeilad wedi ei leoli ar ei dir ei hun ac yn agos at gyfleusterau cymunedol lleol. Rhoddir sylw i sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus gyda mesurau iechyd a diogelwch ac atal heintiau ar waith.

## Llesiant

Mae’r bobl yn aros mewn amgylchedd sy’n gefnogol ac yn darparu gofal priodol ar eu cyfer. Mae’r staff gofal yn garedig, yn gwrtais ac yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae’r staff gofal yn meithrin cydberthnasau â’r bobl drwy dreulio amser un-i-un gyda nhw, gan geisio dewisiadau yn barhaus. Dywedodd y bobl eu bod yn hoffi’r staff a dangosodd arsylwadau fod y bobl yn hapus yng nghwmni’r staff. Gwelsom y staff yn siarad â’r bobl mewn modd cyfeillgar a pharchus.

Cynorthwyir y bobl i gael rheolaeth dros eu hamser o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis sut maent yn treulio’u diwrnod. Mae’r cynllun cyn-asesu yn cynnwys crynodeb o’r trefniadau arferol dyddiol sydd i barhau yn ystod arhosiad yr unigolyn. Trefnir lleoliadau brys a chesglir gwybodaeth i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau'r unigolion. Ceir tystiolaeth mewn ffotograffau a chofnodion i ddangos bod gweithgareddau yn cael eu cynnig. Roedd arsylwadau yn dangos bod y bobl yn gyfforddus ac yn gallu ymlacio ym mhresenoldeb y staff. Dywedodd un berthynas wrthym: *“Mae’r staff yn hyfryd, hapus gyda phopeth 100%, mae fy merch yn edrych ymlaen at fynd.”*

Mae’r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac maent yn gwybod pa bethau i edrych amdanynt a sut i godi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun yn cael ei beryglu. Mae’r staff yn dilyn proses recriwtio sy’n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol ac yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i fod yn fedrus yn eu rolau. Mae’n hawdd mynd at y rheolwr ac mae ganddo bolisi drws agored. Mae cyfathrebu â’r bobl, y staff, y rheolwyr a’r perthnasau’n dda. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol am y gwasanaeth ar gael. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer diogelu’r bobl a’r staff.

Darperir y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae staff sy’n siarad Cymraeg yn cynorthwyo’r bobl y mae’r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau personol ac mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff fedru cynorthwyo a gofalu am y bobl yn unol â'u hanghenion dynodedig. Cyn pob ymweliad, cynhelir adolygiad dros y ffôn gyda'r perthynas agosaf i wirio bod yr asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn dal yn berthnasol. Mae nodiadau a siartiau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal y mae ei angen arnynt pan fo'i angen.

Mae'r bobl yn cadw mor iach ag y gallant fod oherwydd y gofal a ddarperir a'r feddyginiaeth ragnodedig sy'n cael ei rhoi'n effeithiol. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth y mae ei hangen arnynt mewn modd diogel. Mae meddyginiaeth yn cael ei harchwilio wrth gyrraedd ac ar ôl cyfnod o ofal seibiant. Mae cymhwysedd staff yn cael ei wirio cyn y gallant roi meddyginiaeth. Ystyrir anghenion deietegol unigol y bobl ac mae prydau iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn cadw'n iach. Mae'r staff yn cynorthwyo'r bobl i drefnu apwyntiadau iechyd yn ôl yr angen yn ystod eu harhosiad.

Mae'r bobl yn derbyn cymorth da gan staff cyfeillgar a pharchus. Mae'r bobl yn cael dewis sut i dreulio'r diwrnod, ac mae eu dymuniadau unigol yn cael eu parchu. Darperir gweithgareddau a chyfleoedd priodol a rheolaidd i'r bobl ddilyn diddordebau neu hobïau ac mae hyn i'w weld mewn ffotograffau. Mae'r bobl hefyd yn cael eu cefnogi i barhau â'u trefniadau dyddiol rheolaidd tra'u bod yn aros yn Woodlee.

Mae diogelwch y bobl yn cael ei gynnal yn dda. Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i'r awdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw'n ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael hyfforddiant diogelu cyfredol. Mae mesurau rheoli heintiau ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag COVID-19 a heintiau eraill. Mae'r staff yn parhau i wisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth ddarparu gofal personol.

## Yr Amgylchedd

Mae’r gwasanaeth seibiant yn darparu gofal a chymorth i’r bobl mewn amgylchedd sy’n cael ei gynnal a’i gadw’n dda. Mae gan y byngalo dair ystafell wely, dwy ystafell ymolchi a thoiled. Mae cymhorthion ac addasiadau i hyrwyddo annibyniaeth mewn un ystafell ymolchi. Mae’r ardaloedd wedi’u haddurno i safon dda a gall y bobl fynd ag eitemau bach o bethau cofiadwy i wneud eu hystafell wely yn bersonol yn ystod eu harhosiad.

Yn gyffredinol, mae safon gwaith cynnal a chadw’r adeilad yn dda. Mae ardaloedd y tu allan yn darparu lle ychwanegol i’r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored pan fo’r tywydd yn braf. Mae’r mynediad i’r ardd yn addas ar gyfer pobl ag anghenion symudedd.

Mae iechyd a diogelwch y cartref yn cael eu rheoli’n dda. Mae cofnodion yn dangos bod cyfleustodau, offer, a nodweddion diogelwch tân yn cael eu gwirio a’u gwasanaethu’n rheolaidd. Mae gan bob preswylydd gynllun personol ymadael mewn argyfwng sy’n benodol i’w anghenion cymorth unigol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio’r gwasanaeth, a phrosesau ar waith i fonitro safon y gwasanaeth. Mae’r unigolyn cyfrifol yn cynhyrchu tystiolaeth ddogfennol yn dilyn ymweliad â’r gwasanaeth. Mae’r adroddiad diwethaf yn nodi bod yr ymweliad rheoleiddio wedi’i gynnal ym mis Ebrill 2022. Nid oedd cofnod o’r ymweliad â’r gwasanaeth. Dylai’r ymweliadau hyn ddigwydd bob tri mis a dylid rhannu unrhyw dystiolaeth ddogfennol â’r rheolwr i sicrhau y cymerir camau yn erbyn unrhyw feysydd datblygu a nodwyd. Mae angen gwelliannau mewn perthynas ag ymweliadau rheoleiddio i fodloni’r gofynion cyfreithiol yn llawn. Mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r darparwr gymryd camau. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae diwylliant o fod yn agored yn y cartref. Mae’r staff gofal yn gadarnhaol am y cartref ac mae’r rheolwr a’r rheolwr cynorthwyol yn hawdd mynd atynt ac yn darparu cymorth ar lefelau personol a phroffesiynol gyda goruchwyliaeth staff ac arfarniadau blynyddol. Disgrifiodd un aelod o staff y rheolwr a’r rheolwr cynorthwyol fel *“anhygoel”*. Trefnir cyfarfodydd staff i rannu materion gweithredol megis hyfforddiant ac iechyd a diogelwch, ac i roi cyfleoedd i’r staff rannu syniadau ac unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaeth a ddarperir.

Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn dechrau cyflogaeth. Mae gan y darparwyr broses fetio a dethol, gan gynnwys cael geirdaon. Mae gweithdrefnau recriwtio mewnol ar waith yn yr awdurdod lleol. Yn sgil cyfyngiadau’r llywodraeth, prin yw’r hyfforddiant wyneb yn wyneb sydd wedi digwydd ers y pandemig. Darperir cyfleoedd dysgu amgen i’r staff, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a phenodol. Mae’r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf, symud a thrin, a diogelu. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau. Mae’r staff sy’n rhoi meddyginiaeth wedi derbyn hyfforddiant meddyginiaeth ac wedi pasio prawf cymhwysedd rhoi meddyginiaeth. Trefnir lefelau staffio yn unol ag anghenion asesedig y bobl sy’n derbyn gofal seibiant.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben sy’n disgrifio’n glir ar gyfer pwy mae’r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae’r bobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio’r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn.

Mae’r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

| Crynodeb o’r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 73 | Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn ymweld â’r gwasanaeth o leiaf bob tri mis. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/10/2022